# Hysbysiad Preifatrwydd – Llywodraeth Cymru I dderbynwyr grant y Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Blwyddyn academaidd 2022-2023

### 1. Cefndir

Bydd cymryd rhan yn y Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol yn golygu eich bod yn darparu eich data personol ar y ffurflenni cais a hawlio. Llywodraeth Cymru fydd rheolydd yr wybodaeth hon a byddwn yn ei phrosesu’n unol â'n tasg gyhoeddus a thrwy arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd inni. Os bydd y data ar lefel data categori arbennig, byddwn yn eu prosesu er budd sylweddol y cyhoedd.

Byddwn yn defnyddio eich data fel a ganlyn:

a. At ddibenion y Cynllun Cymhelliant:

- ✓ I lywio a gwella polisïau mewn perthynas â rhaglenni gradd ac ôl-raddedig AGA yng Nghymru, ac i ddylanwadu arnynt
- ✓ I helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol

b. At ddibenion cyllido (er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i fanteisio ar y Cynllun Cymhelliant a’n bod yn cael gwybodaeth gywir er mwyn gwneud taliad):

- ✓ Bydd y data uchod yn cael eu defnyddio i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i gynnal gwiriadau at berwyl atal twyll a gwyngalchu arian
- ✓ Bydd y data’n cael eu defnyddio i wneud taliadau o dan y cynllun
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i wirio eich hunaniaeth
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i helpu i fonitro cyllid a’i dargedu'n effeithiol

c. At ddibenion ystadegol ac ymchwil:

- ✓ I lywio a gwella polisi addysg gan gynnwys ein Cynlluniau Cymhelliant, ac i ddylanwadu arnynt
- ✓ I fonitro cyllid a’i dargedu’n effeithiol
- ✓ I fonitro perfformiad ac effeithiolrwydd y Cynlluniau Cymhelliant yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys:
  - ✓ gysylltu â setiau data cynlluniau cymhelliant eraill Llywodraeth Cymru i fonitro a gwerthuso’r cynlluniau

- ✓ cysylltu â setiau data eraill Llywodraeth Cymru ac â set ddata Cyngor y Gweithlu Addysg i ddeall faint o dderbynwyr grant cynlluniau cymhelliant sy’n ymuno â’r proffesiwn addysgu yng Nghymru, ac sy’n aros yn y proffesiwn.

## 2. Â phwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth?

Yr Unigolion neu'r Sefydliadau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw:

- ✓ Cyngor y Gweithlu Addysg – at ddibenion ymchwil, er mwyn deall faint o dderbynwyr grant cynlluniau cymhelliant sy'n ymuno â'r proffesiwn addysgu yng Nghymru, ac sy'n parhau i fod yn y proffesiwn.

- ✓ Asiantaethau atal twyll – os bydd angen, at ddibenion atal a chanfod twyll.

## 3. Am ba mor hir y byddwn yn cadw'r data hyn?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth am hyd at 7 mlynedd ar ôl y dyddiad y bodlonwyd yr holl amodau sy'n berthnasol i'r grant ac y cafodd yr holl daliadau eu gwneud.

## 4. Eich hawliau o dan GDPR

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- ✓ Gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu prosesu amdanoch chi;
- ✓ Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- ✓ Gwrthod (o dan rai amgylchiadau) i'r data gael eu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi;
- ✓ Cyfyngu'r prosesu (o dan rai amgylchiadau);
- ✓ Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael gwybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, cysylltwch â Llywodraeth Cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r manylion cyswllt:

| ***Swyddogion Polisi Addysg Gychwynnol i Athrawon*** | ***Swyddog Diogelu Data:*** | ***Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth*** |
|---|---|---|
| Cyfeiriad:<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD,<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost:<br>ITEducationAddysgGA@llyw.cymru | Cyfeiriad:<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD,<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost:<br>DataProtectionOfficer@llyw.cymru | Cyfeiriad:<br>Wycliffe House<br>Water Lane<br>Wilmslow<br>Swydd Gaer<br>SK9 5AF<br><br>Llinell gymorth Cymru:<br>029 2067 8400<br>Llinell gymorth y DU:<br>0303 123 1113<br>Gwefan: www.ico.gov.uk |